

Cynulliad Cenedlaethol Cymru	National Assembly for Wales
Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd	Environment and Sustainability Committee
Dyfodol Ynni Craffach i Gymru?	A Smarter Energy Future for Wales?
Ymateb gan Ynni Clyfar GB	Response from Smart Energy GB
SEFW 09	SEFW 09



Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales



East Side, King's Cross  
Station  
Llundain N1C 4AX

Ffôn: 020 3751 0751  
[smartenergyGB.org/cy](http://smartenergyGB.org/cy)

Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynladwydd  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Stryd Pierhead  
Caerdydd  
CF99 1NA

1 Medi 2015

## **YMATEB YNNI CLYFAR GB I YMGYNGHORIAD CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU AR "DDYFODOL YNNI MWY CLYFAR I GYMRU"**

### **Ymagwedd at ein hymateb:**

Ynni Clyfar GB yw'r ymgyrch genedlaethol ar gyfer cyflwyno mesuryddion clyfar. Mae'r ymgyrch gyflwyno'n un o'r prosiectau isadeiledd mwyaf a gyflawnwyd ar draws Prydain Fawr yn yr oes bresennol. Bydd yn golygu gosod dros 50 miliwn o fesuryddion clyfar mewn 26 miliwn o gartrefi a 4 miliwn o ficrofusnesau yng Nghymru, yr Alban a Lloegr. Bydd yn cyflwyno arbedion gwerth £6bn i'r wlad.

Mae mesuryddion clyfar yn uwchraddiad hanfodol i ddigideiddio'r farchnad manwerthu ynni, grymuso defnyddwyr a helpu sicrhau bod ein hisadeiledd ynni'n barod i fodloni'r galw yn y dyfodol. Gyda mesuryddion clyfar, bydd defnyddwyr yn gallu gweld faint maen nhw'n ei wario ar ynni mewn amser real ac mewn punnoedd a cheiniogau, gwybodaeth a fydd yn galluogi penderfyniadau mwy gwybodus am y defnydd o ynni a chan roi mwy o hyder i ddefnyddwyr wrth iddynt siopa i ddod o hyd i'r tariff ynni gorau.

Bydd mesuryddion clyfar hefyd yn gosod yr isadeiledd y mae ei angen i alluogi newid cyflenwyr yn gyflymach, rheoli'r galw am ynni'n well a'r defnydd eang o dechnolegau carbon isel megis ceir trydan.

Er bod mesuryddion clyfar yn cael eu cyflwyno fel rhan o raglen drosgynnol Llywodraeth y DU, mae ganddynt berthnasedd ac effaith mewn nifer o feysydd polisi Llywodraeth Cymru, gan gynnwys effeithlonrwydd ynni, mynd i'r afael â thlodi, a thechnoleg ac arloesedd. Maent yn creu cyfleoedd ar gyfer newidiadau ymddygiad sylweddol o ran y defnydd o ynni a gwariant arno gan ddefnyddwyr, yn ogystal â rhoi'r potensial i gyflenwyr ynni dargedu rheoli'r llwyth trwy fesurau rheoli tariffau a gwybodaeth fanylach ar gyfer rhwydweithiau ar lwyth a foltedd. Gall y data hwn alluogi buddsoddi a phenderfyniadau arloesol ar draws Cymru sy'n seiliedig ar wybodaeth gywir.

Wrth ystyried ein hymateb rydym wedi canolbwyntio ar faes ennyn diddordeb cymunedau ac yn ymdrin â'r ddau gwestiwn a godwch yn fanwl isod.

### **Ymatebion Manwl:**

**Cwestiwn:** Sut gall cymunedau, busnesau a diwydiant gyfrannu at drawsnewid y ffordd y mae Cymru'n meddwl am ynni?

1. Bydd mesuryddion clyfar yn trawsnewid y ffordd y mae defnyddwyr a busnesau bach yn meddwl am eu defnydd o ynni a'i gost. Ar ôl eu gosod, cynigir sgrîn arddangos glyfar i bob defnyddiwr<sup>1</sup> sy'n cyfathrebu'n uniongyrchol â'u mesuryddion gan ddangos eu defnydd o ynni a'i gost bron mewn amser real<sup>2</sup>, yn seiliedig ar eu tariff a thaliadau sefydlog.
2. Mae Asesiad Effaith Llywodraeth y DU ar gyfer y rhaglen mesuryddion clyfar yn tybio, fel amcangyfrif gochelgar, y bydd defnyddwyr domestig sy'n defnyddio'r wybodaeth o'u mesuryddion clyfar yn arbed isafswm o 2.8% a 2% ar gyfer trydan a nwy yn ôl eu trefn, gyda defnyddwyr annomestig yn arbed 2.8% a 4.5%.
3. Ar gyfer rhwydweithiau mae'r Asesiad Effaith yn priodoli buddion sylweddol gwerth £0.99bn. Wrth drafod gwireddu'r buddion hyn, mae Llywodraeth y DU yn cydnabod bod mesuryddion clyfar a'r data y maent yn eu darparu i gyflenwyr a rhwydweithiau'n creu cyfleoedd i:
  - i. Adnabod colledion ar gyfer gweithredwyr rhwydweithiau ac atal nhw rhag parhau
  - ii. Defnyddio larymau a rhybuddion mesuryddion clyfar i wella toriadau'n sylweddol a rheoli'r galw am drydan
  - iii. Gwella ac ymchwilio i foltedd ar draws rhwydweithiau i gynyddu effeithlonrwydd a gostwng cwynion gan ddefnyddwyr.
  - iv. Darparu data arwyddocaol i symbylu penderfyniadau buddsoddi mwy gwybodus ar draws y rhwydwaith yn y dyfodol.
4. Cydnabyddir bod mesuryddion clyfar yn creu amgylchedd lle gall mathau soffistigedig o dariffau greu ysgogiadau i wireddu Ymateb Ochr Galw (DSR) neu symud llwyth. At hynny, maent yn cynnig potensial i'r diwydiant ddefnyddio technolegau'r dyfodol ar raddfa eang, o bympiau gwres i storio ynni ar y safle a chapasiti ceir trydan graddfa fawr. Mae buddion a adnabuwyd yn yr Asesiad Effaith yn nodi y gallai'r arbedion fod fel a ganlyn:
  - i. Costau ffiniol rhediad byr cynhyrchu ynni £113m
  - ii. Rheoli capasiti cynhyrchu ynni £690m
  - iii. Arbedion buddsoddi mewn capasiti rhwydweithiau £40m
  - iv. Arbedion carbon £26m(Sylwer mai arbedion Prydain Fawr yw'r costau uchod ac nid yw'r Asesiad Effaith yn caniatáu i arbedion cenhedloedd unigol gael eu hadnabod yn hwylus.)
5. Mae'r cyfoeth o ddata a ddarperir o ganlyniad i gyflwyno mesuryddion clyfar sy'n symbylu'r holl fuddion a amlinellir uchod yn ddibynnol ar gyflawni targed Llywodraeth y DU o newid 53m o fesuryddion ledled Prydain Fawr erbyn 2020. Bydd ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ac

---

<sup>1</sup>Gellir cynnig sgrîn arddangos ynni i ddefnyddwyr annomestig ond nid yw'r diwydiant wedi'i fandadu i wneud hyn.

<sup>2</sup>Hyd at 10 eiliad ar gyfer trydan a phob ½ awr ar gyfer nwy.



awdurdodau lleol trwy gydol y rhaglen a mwyafu'r buddion sy'n deillio o'i chyflwyno'n cefnogi'r ymgyrch ac yn annog rhaglenni cymunedol yn weithredol ar draws Cymru i ddefnyddio'r dechnoleg nid yn unig i gyflawni targedau arbed ynni, ond o bosib i'w gwella'n sylweddol hefyd.

6. Bydd Ynni Clyfar GB hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau o'r sectorau gwirfoddol, cyhoeddus a phreifat i gefnogi ein cysylltiadau â chymunedau ac unigolion ar hyd a lled Cymru. Bydd ein rhaglen bartneriaeth, sydd i fod i lansio yn 2016, yn helpu sicrhau bod ein hymgyrch ennyn diddordeb yn estyn ar draws y boblogaeth, ac yn benodol, yn sicrhau ein bod yn cyrraedd rhai o'r cymunedau mwyaf bregus.

**Cwestiwn:** Ydy'r ateb i'r cwestiwn hwn yn seiliedig ar alluogi cymunedau i gymryd mwy o reolaeth dros ddiwallu eu hanghenion ynni yn y dyfodol?

7. Mae Ynni Clyfar GB yn credu y bydd defnyddwyr unigol a'r cymunedau'n gweld y buddion mwyaf pan fydd cymunedau ar bob lefel yn ymwneud â chyflwyno'r rhaglen mesuryddion clyfar. Yng Nghymru rydym yn ymgynghori â budd-ddeiliaid perthnasol i sicrhau bod ein hymgyrch yn ystyried materion penodol gan gynnwys yr heriau o ran y rhai nad ydynt yn gysylltiedig â'r grid nwy, unigedd gwledig a dewis iaith. Byddwn yn parhau i wneud hyn trwy gydol yr ymgyrch.
8. Bydd y data a ddarperir gan fesuryddion clyfar yn galluogi i benderfyniadau buddsoddi yn y dyfodol o ran cynhyrchu a chyflenwi ynni gael eu seilio ar wybodaeth ffeithiol, gan roi ystyriaeth i dwf mewn data go iawn. Ni fu'r wybodaeth hon ar gael yn hwylus ar draws pob sector yn flaenorol. Gan hynny, mae mesuryddion clyfar yn cynnig potensial i gymunedau gymryd rhan yn weithredol wrth ddatblygu, rheoli a chostio cyflenwadau yn y dyfodol. Gallant osod sylfaen ar gyfer llwyfan glyfar i optimeiddio cynhyrchu ynni ar raddfa ficro a chymunedol. Mae adeiladu cynhyrchu ynni ar y golwg cywirach bosib o'r hyn y mae cymuned yn ei ddefnyddio mewn ynni'n galluogi cynllunio cynhyrchu ynni, ac yn cefnogi'r penderfyniadau gorau wedi'u rheoli gan gymunedau ynglŷn â phryd i brynu neu werthu trydan o'r grid ac i'r grid. Gyda mesuryddion clyfar, gall rheolwyr cynlluniau cynhyrchu ynni cymunedol gynllunio a chyflwyno ynni i aelwydydd y gymuned yn y ffordd fwyaf effeithiol a chynllunio'n gywir ar gyfer cyfanswm anghenion defnyddio eu cymuned a'r ffordd orau o'u diwallu.

Rydym yn gobeithio y bydd y dystiolaeth ysgrifenedig hon yn ddefnyddiol i ymchwiliad y Pwyllgor. Rydym yn awyddus i ddarparu mwy o wybodaeth i'r Pwyllgor am unrhyw un o'r meysydd a grynhowyd yn y dystiolaeth hon os byddai'n ddefnyddiol.

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â Fflur Lawton, Pennaeth Polisi a Chyfathrebu, Cymru, Ynni Clyfar GB yn [Fflur.lawton@smartenergyGB.org](mailto:Fflur.lawton@smartenergyGB.org)

Fflur Lawton



East Side, King's Cross  
Station  
Llundain N1C 4AX

Ffôn: 020 3751 0751  
[smartenergyGB.org/cy](http://smartenergyGB.org/cy)

.....